WG35 S 135

# MARWNAD

ER

COFFADWRIAETH

AM Y BRAWD

# JOHN MORGANS,

*CILFODIG,*

yr hwn a fu yn Ddiacon yn Eglwys

## *MAES-Y-BERLLEN,*

YN AGOS I 40 MLYNEDD.

ac a

ORPHENODD EI YRFA YN Y BYD HWN,

Ionawr 16, 1812.

YN 71 MLWYDD O'I OED.

---

*Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig.*

---

GAN BENJAMIN HERBERT.

---

TALGARTH:
*Argraphwyd gan M. Hughes.*

1812.

CH 2410
X205312313

# MARWNAD, &c,

MAE rhybudd 'nol rhybudd yn traethu,
Fod angeu 'n trafaelu bob dydd,
I ſymmyd ein pabell i orwedd,
Yn waeledd i wely o bridd;
Ymado mae'n hawwyl gyfeillion,
Rhybuddion i ninnau 'mbartoi,
Mae'n huno yn angeu laweroedd,
Rhyw luo'dd ty'n mlaen wedi ffoi.

2 Un etto ddihangodd o'r rhyfel,
Yn dawel i ſynwes y Tad,
Gadawodd gyffyniau'r tymheſtlodd,
Dihangodd ar unwaith o'n gwlad;
Yn ſydyn rho'dd heibio'r filwriaeth,
Y drafferth flinedig a'r cledd,
'Rwy'n credu'n ddiameu ei fod heddyw,
Yn loyw a diſglair ei wedd.

3 *John Morgan* Cilfodig aeth adreu,
Eu wagle ſydd lydan a mawr,
Rhyw golled, rhyw riddfan, rhyw ſwmbl
Sy'n llanw fy meddwl bob awr.
Gwnaeth angeu du glew ei reolaeth,
Gym'dogaeth drwm athriſt eu gwedd,
Wrth ſymmyd pererin mor enwog
Godidog i 'ſtafell y bedd.

4 Pa fodd y mynegaf yn gyſon,
Rinweddau'r brawd ffyddlon a ffodd,
Ei ymdrech a'i lafur a'i ludded

Bendigaid mewn caniad ar go'dd,
O fore ei las fywyd i fynu
Er clod i'r mwyn Iesu fe ro'dd
Ei hunan yn filwr i amddiffyn
Achosion ei Frenin o'i fodd.

5 Tu ag ugain mlwydd oed yr enlistiodd,
O'i wirfodd dan faner ei Dduw,
Tu a hanner can mlynedd parhâodd,
Nes mudodd o barthau rhai byw;
O fewn i wych hardd *Faes y-berllan*,
Neu gorlan gartrefol y saint,
Bryd arall llawr dyrnu cyfrifir,
Rhai drinir ni thraethir eu braint.

6 Yn Ddiacon parhaodd yn ffyddlon,
Flynyddau maith hirion îs nen,
Fe rodiodd hardd lwybrau anrhydedd,
Nes rhifwyd ei ddyrnfedd i ben;
Yn ddyfal fe wiliodd yr eglwys,
Heb orphwys yn achos ei Dduw,
Ard 'elodd yngwyneb caseion,
Gelynion o'r gwaethaf eu rhyw.

7 Ei eiriau arferai'n arafaidd,
A symledd, fel swyddog a saint,
I attal ystormydd gofidus
I'r eglwys, wych urddas ei braint,
Ei eiriau fel hoelion o'r sicra
Gan feistriaid gyn'lleidfa fai gry'.
Fe safai rhesymau mrawd ffyddlon,
I attal dadleuon yn hŷ.

8 Ei ymdrech, ei ofal, a'i awydd,
Oedd harddu gwir grefydd tra bu,

Derbyniau'n roesawys a rhigl,
'R efengyl wych anwyl i'w dŷ:
Fe gadwodd ei byrth yn agored
I weision bendigaid ei Dduw,
Ni chaeir mo honynt ar unwaith,
Tro rai o'r hiliogaeth yn fyw.

9 Llafuriodd a chwiliodd yn ddiwyd,
Trwy fywyd yn nhrysor y gair,
Gweddiodd ryw filoedd o weithiau,
Am noddfa ynghlwyfau Mab *Mair*,
Darllenodd, gweddiodd tro olaf,
Y bore diweddaf bu byw.
Ac yna 'mhen ychydig funudau,
Cymmerwyd ef adreu at Dduw.

10 'R oedd llawer o achosion yr eglwys
Ar fynwes y brawd gyd â ni,
Ei amser a'i gyfoeth yn odiaeth,
Gyfranodd yn helaeth tra bu,
Fel gwr fai'n gofalu'n ddifrifol,
Am achos rhagorol yr Oen,
'Rwy'n credu'i fod heddyw mewn hafan
Heb riddfan na chwynfan na phoen.

11 Mewn heddwch disgybliodd ei deulu,
Gan gadw ymgweryla 'mhell ffwrdd,
Nid diafol pen pentan rhyfelgar,
Nac angel gwenheithgar pen ffordd,
Ond sobr a harddwych ymddygodd
Pregethodd a'i ddwylaw a'i draed,
Fod rhyngddo wr addas a duwiol,
Ryw undeb rhagorol â'r Tad.

12 Wel bellach gadawaf ei yrfa,
Ddichlynedd ef yma hyd fedd,

Mi droaf ddychymyg fy meddwl
At wledydd di-gwmwl yr hedd,
Lle mae fy mrawd gwiwlan yn gorphwys
O fewn i baradwys y saint,
Lle nad all na Seraph nac Angel,
Fynegu mor uchel yw'r fraint.

13 'Nol dywedyd ddywedir dywedaf,
Na ddywed y doethaf ond dim
Am raddau'r uchafiaeth oruchaf,
A thannau teilyngaf y bryn,
Dywedaf am bawb ddaearolion,
Na ddaeth i'w eu calon erioed
Ddychymig y rhag-bartofadau
Sy'n nghartref goleuni uwch rhod.

14 Brenhinol uchafiaeth gyfreithlon,
Gaiff Sion tu arall i'r bedd,
Oll ar wych ddelw'r Pen blaenor,
Tywysog holl oror yr hedd,
Cant balmwydd o hardd fuddygoliaeth,
Mewn perffaith unoliaeth ynghyd,
Ac uffern ruadwy'n rhwymedig,
Dan ddedryd hoff Feddyg y byd.

15 Cael gwisgo coronau cyfiawnder,
Ar fryniau ucheldir cyn hir,
Goddiwes llawenydd bryn Sion,
Caiff holl etifeddion y gwir
Cant 'mado a chorph y farwolaeth,
A'u blinodd hwy ganwaith cyn hyn
Meddyliau crwydredig gofidus,
A gwisgoedd galarus y glynn.

16 Patriarchiaid a sanctaidd brophwydi,
yS draw wedi blaenu'n y bla'n,

Merthyron a hardd apostolion,
Sy'n uchel a chyson eu cân,
'Rhên *Ioan* a welodd rhyw luoedd,
A'u gwisgo'dd yn ddisglair a gwynn,
'Rwy'n credu fod *Morgans* Cilfodig,
Yn ddiddig ymhlith y rhai hyn,

17 Nid rhyfedd os gwelir rhan amla,
Y'nghol y Messia rhyw ddydd,
Ei nages yngwlad daearolion,
Oedd 'dwyn carcharorion yn rhydd,
Ac am i'r Concwerwr i faeddu,
Yn uchel ar galfari fryn,
Braidd credai bydd mwy'n y diwedd,
Dan ddanedd ellyllon y llynn.

18 Ond etto rhyfedd o'i diddarfod,
A syndod prefwylfod y nen
Fod neb o hên ddarnau cwymp Eden,
Yn llawen ac uchel eu pen
Rhyfeddod i Dduwdod i garu,
A phrynu rhai isel y llawr,
Rhyfeddod i bob trag'wyddoldeb,
I'w'r undeb dirgelaidd a mawr.

61 O Arglwydd datguddia dy allu,
Trwy nerthu trueiniaid y groes,
Sy'n ymdrech yngwyneb y tywydd,
Oer 'stormydd y gauaf a'r nos;
Y testun orch'mynwyd bregethu
Wrth gladdu fy mrawd yn y pridd,
Oedd gyrfa'r Apostol a'i goron,
A'i gyson hardd ymdrech y ffydd.

20 Wel bellach rhaid tynnu tu a diben,
A gorphen llinellau fy nghan,

an annerch ei anwyl berth'nasau,
I ddilyn ei lwybrau 'fe ymlaen
Gan edrych ar Iesu'r Tywysog,
Perffeithydd godidog eu ffydd
Yn hên ac yn ieuangc i gychwyn,
Nes do'd o bob cadwyn yn rhydd.

21 O agos gydmares ei fywyd,
Mewn gofid fe'ch dwfn dristawd,
Trwy gladdu'ch mwyn briod naturiol,
Crefyddol, mor agos a brawd,
Ymroddwch eich hunan yn gwbl,
I'r Iesu mwyn anwyl mewn hedd,
'Rwy'n credu cewch etto gyfarfod,
Dau briod tu arall i'r bedd

22 Dymunwn ryw werthfawr fendithion,
I bawb o'i gyfoedion i gyd,
I'w dilyn trwy yftod eu bywyd,
Nes cwrddyd yn Salem ynghyd,
Rhoed Duw iddynt nerth i filwrio,
A fefyll tra paro'r dydd drwg,
Ac arddel y cywir Fefsia,
Er gwaetha gelynion a'u gwg.

23 A chwithau genhadon yr Arglwydd,
sy a'ch hyfgwydd dan achos eich Duw,
'Mwrolwch a chadarn artogwch,
Tro byddoch yn ardal y byw,
Er colli blaenoriaid y gorlan,
Mae'n Harglwydd ei hunan yn fyw,
Cyn cleddir yr eglwys mewn galar,
Efe faif ar y ddaear gwir yw.

24 O Evans ti gollaist gydymaith,
Hên gyfaill doeth odiaeth a da

Gwnaeth angeu wahaniad dros ennyd,
Nes cwrddyd mewn ardal ddi-bla,
Dymunaf i'r Pen Bugail etto
I rwymo'r fforddolion yn un,
A'r gweision sy'n gwilied y muriau,
Gyd uno hyd angeu'n gyttun.

25 Gweddiwch, cynghorwch, cyhoeddwch,
Pregethwch o fynydd i froi'dd,
Nes delo plant arfaeth o'r maglau,
Yn rhydd o'u cadwynau'n dorfeydd,
Arddeler yr hôff gennadwri,
A'r Iesu trwy'r bydoedd fo'n ben,
Gwybodaeth o'r Arglwydd ymleded,
A dyweded pob Cristion Amen.

## DIWEDD.

TRAWS-DDARLLENIAD, neu ACROSTIC.

J or gwerthfawr gwrando di ein cwyn,
O 'r byd i'r bedd mae Angeu'n dwyn,
H yn ydyw'n cwyn aeth brawd o'n bro,
N is gwelir mwy mae dan y gro.

M ewn sydyn dro rhe'dd heibio'r cledd
O 'n hardai ffôdd i wlad yr hedd ;
R hodd werthfawr ddrud Calfaria fryn,
G ofleidiodd yn y bywyd hyn,
A 'nayma'r Perl addurnodd ef,
N awr yn y Nef pwy draetha ei fraint,
S y'n loyw saint uwch tonnau'r glynn.